60 - 120 mun

## Canllaw Gweithgaredd

# Arolwg Rhywogaethau

Gellir gwneud y gweithgaredd hwn mewn dwy ffordd, naill ai trwy fynd am dro mewn grŵp dan oruchwyliaeth neu fel gweithgaredd y gall y dysgwyr ei wneud gartref gyda'u teulu, ac yna trafod y canlyniadau yn y dosbarth.

Isod ceir rhywfaint o wybodaeth am y rhywogaethau a restrir yn yr arolwg i helpu i ddechrau trafodaethau.

| Gwiwer lwyd | Jac y neidiwr | Efwr enfawr |
|---|---|---|
| Yn wreiddiol o Ganada a'r Unol Daleithiau, cafodd ei chyflwyno yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif. Mae gwiwerod llwyd yn llawer mwy na gwiwerod coch ac maent yn gallu ennill y gystadleuaeth yn eu herbyn am fwyd a safleoedd nythu. Gall gwiwerod llwyd hefyd gario'r feirws brech y wiwer, y maent yn imiwn iddo, ond sy'n angheuol i wiwerod coch, gwaetha'r modd. | Cafodd ei gofnodi am y tro cyntaf ym 1839, ar ôl ei dyfu mewn tŷ gwydr fel planhigyn gardd blynyddol. Mae'n ffurfio dryslwyni dwys, yn enwedig mewn tir gwlyb sy'n newid cydbwysedd arferol yr amgylchedd. Mae hadau'n cael eu gollwng i mewn i afonydd ac yn llygru'r tir i lawr yr afon. Mae'r modd ffrwydrol y mae'r planhigyn yn rhyddhau ei hadau i'r aer yn galluogi i'r hadau gael e'u gwasgaru hyd at 4m i ffwrdd, sydd yn golygu ei fod yn gallu gorchuddio ardaloedd yn gyflym. | Y cyflwyniad cynharaf ar gofnod oedd ym 1817 o'i wlad frodorol, Rwsia, i Erddi Kew. Roeddent yn cael eu plannu'n eang mewn gerddi ffasiynol ledled Prydain. Dihangodd yn gyflym a chofnodwyd y boblogaeth ('wyllt') gyntaf ym 1828. Erbyn hyn, mae'n cael ei ledaenu'n eang dros Brydain ac Ewrop. Gallant dyfu hyd at 6m mewn uchder ac **maent yn cynnwys cemegion sy'n gallu achosi llosgiadau a swigod.** Mae eu maint yn golygu eu bod yn llethu pob planhigyn arall ac yn newid y rhywogaethau naturiol sy'n bresennol. |
| **Rhododendron ponticum** | **Gwymon sargaso Siapaneaidd** | **Llysiau'r dial (Japanese knotweed)** |
| Yn wreiddiol o Sbaen neu Bortiwgal, cafodd ei gofnodi gyntaf ym Mhrydain yn 1763. Defnyddir gan fwyaf mewn gerddi botaneg ac ystadau mawr. Mae'n ffurfio clympiau trwchus sy'n atal golau rhag cyrraedd rhywogaethau brodorol. Mae ei ddail yn wenwynig i bron iawn holl fywyd gwyllt a chredir ei fod yn cario clwyf marwol sydyn y derw. Credir bod y planhigyn yn gorchuddio dros 98,700 hectar ym Mhrydain erbyn hyn. | Gwelwyd am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig ar Ynys Wyth ym 1973. Mae wedi lledaenu ar hyd arfordiroedd y de a'r gorllewin, ac erbyn hyn ceir hyd iddo ym mhob gwlad yn Ynysoedd Prydain. Mae'n wymon sy'n tyfu'n gyflym iawn ac mae ei ddail hir 1m yn ennill y gystadleuaeth yn erbyn algâu a gwellt môr brodorol am olau a gofod. Mae hefyd wedi creu niwsans mewn porthladdoedd bas ac ar draethau. | Credir bod Llysiau'r Dial wedi cyrraedd Prydain am y tro cyntaf yn yr 1840au fel sbesimen ar gyfer gerddi botaneg. Gall coesau praff y planhigyn, sydd fel bambŵ, aildyfu o dameidiau o'r gwraidd sydd wedi'u gadael hyd at 2.5m o dan ddaear. Mae'n tyfu'n eithriadol o gyflym rhwng mis Mai a Gorffennaf - mae'n gallu tyfu 10cm y diwrnod a thyfu 3m mewn uchder. Mae'n ffurfio darnau trwchus iawn sy'n ennill y gystadleuaeth yn erbyn planhigion eraill, ac mae ei goesau cryf yn gallu tyfu drwy strwythurau gwneuthuredig, gan ddifrodi gwaith brics a tharmac. |

# Arolwg Rhywogaethau

Mae gwyddonwyr yn monitro lle a phryd mae rhywogaethau ymledol yn cael eu canfod ar hyd a lled y wlad. Faint o'r eitemau ar y rhestr y medrwch chi ddod o hyd iddynt yn eich ardal leol chi?



**Giwer lwyd**
Parciau, gerddi, a choedlennau

Gwelwyd: ☐
Lle: ..............................
Pryd: ..............................



**Jac y neidiwr**
Glannau afonydd, tir anial a gerddi

Gwelwyd: ☐
Lle: ..............................
Pryd: ..............................




**Efwr enfawr**
Ar led yn eang, yn enwedig ar lannau afonydd

Gwelwyd: ☐
Lle: ..............................
Pryd: ..............................



**Rhododendron ponticum**
Rhostiroedd, coedlannau, glannau afonydd

Gwelwyd: ☐
Lle: ..............................
Pryd: ..............................



**Gwymon sargaso Siapaneaidd**
Glan y môr, pyllau creigion

Gwelwyd: ☐
Lle: ..............................
Pryd: ..............................



**Llysiau'r dial**
Ardaloedd trefol a gerddi

Gwelwyd: ☐
Lle: ..............................
Pryd: ..............................

*Peidiwch â chyffwrdd unrhyw un o'r rhywogaethau a restrir uchod. Gall efwr enfawr achosi swigod poenus ac mae cyffwrdd yn unrhyw un o'r planhigion yn gallu eu helpu i ledaenu!*



Gall efwr enfawr dyfu i rhwng 4.5m a 6m mewn uchder.